**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gw. Anrh. Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

24 Gorffennaf 2025

Annwyl Lywydd,

**Blwyddyn 5 o Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: Craffu ar y Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr**

Diolch i chi am rannu'r dyddiadau allweddol arfaethedig ar gyfer y Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr. Rwyf wedi trafod eich llythyr â'r Pwyllgor, ac nid ydym yn credu y byddai'n bosibl cynnal gwaith craffu digonol ar y ddau fil, o ystyried yr amserlen arfaethedig.

Hoffwn hefyd godi pryderon ynghylch y Cyfnod 1 byrrach a arfaethir ar gyfer y ddau fil. Yn realistig, i bwyllgor gadw at y dyddiad cau a gynigir yn y llythyr ar gyfer cyflwyno adroddiad, ni fyddai ganddo ond tair wythnos i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Rhan allweddol o rôl y Pwyllgor o ran craffu deddfwriaethol yw casglu barn a safbwyntiau partïon â chanddynt fuddiant ac adlewyrchu'r rhain yn yr adroddiad Cyfnod 1. Ni fydd tair wythnos yn ddigon o amser i randdeiliaid ystyried y bil a chyflwyno ymateb llawn o ansawdd uchel, yn enwedig os ydynt yn sefydliadau cynrychioliadol ac mae angen iddynt ymgynghori â'u haelodau.

I liniaru sefyllfa o'r fath, byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi'r biliau drafft cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn gofyn am i ddrafft preifat cynnar o filiau gael eu rhannu â'r pwyllgorau y cânt eu cyfeirio atynt. Yna gallai'r pwyllgorau hynny rannu drafft o'r fath â'r rhanddeiliaid allweddol a nodir ganddynt, gan sicrhau bod gan y sefydliadau hynny gymaint o amser â phosibl i gyfrannu at waith y Pwyllgor.

Hoffwn hefyd ofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod swyddogion ar gael i roi sesiynau briffio technegol preifat i'r pwyllgorau cyn i bob bil gael ei gyflwyno. Byddai hwn yn gam anarferol iawn, ond

rwy'n credu ei fod yn angenrheidiol o ystyried yr amser cyfyngedig y bydd gan yr Aelodau i ystyried y biliau.

Bydd y ddau fesur hyn yn helpu i ddatrys y problemau sy'n deillio o gael amserlenni Cyfnod 1 eithriadol o fyr. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r mesurau hynny ar waith, rwy'n teimlo o hyd bod yr amserlenni arfaethedig yn rhy fyr ar gyfer gwaith craffu o'r ansawdd y byddwn yn ei ddisgwyl gan unrhyw un o Pwyllgorau'r Senedd.

Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â mi fod craffu o ansawdd uchel yn rhan hanfodol o'r broses ddeddfu a bod hynny'n creu deddfwriaeth o ansawdd gwell. Rwy'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ei rhaglen ddeddfwriaethol pum mlynedd yn ddigon da i roi digon o amser i bwyllgorau gyflawni ein rôl a chynnal gwaith craffu'n priodol ar ei deddfwriaeth arfaethedig.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg